15FED O FAI

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Taith PGL

Yr wythnos hon, cafodd disgyblion Blwyddyn 5 gyfle arbennig i fynd ar ymweliad preswyl i PGL. Cafodd y plant amser gwych yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous ac anturus, gan ddatblygu eu hyder, eu sgiliau gwaith tîm a'u hannibyniaeth. Roedd ymddygiad y disgyblion yn arbennig o dda drwy gydol yr ymweliad ac roeddent yn glod mawr i'r ysgol. Gwnaethant gynrychioli'r ysgol mewn modd aeddfed a pharchus iawn. Diolch yn fawr iawn i'r holl aelodau staff a fu'n gofalu am y plant ac yn cefnogi'r ymweliad yn PGL. Heb eu hymroddiad a'u gwaith caled, ni fyddai'r profiad gwerthfawr hwn wedi bod yn bosibl.

### Bws Beic Tymor yr Haf

Bydd y Bws Beics yn parhau drwy gydol tymor yr haf, ac rydym yn edrych ymlaen at weld hyd yn oed mwy o deuluoedd yn ymuno â ni!

Dyma ddyddiadau'r Bws Beics ar gyfer y tymor hwn:

- Dydd Iau 21/05
- Dydd Gwener 26/06
- Dydd Gwener 17/07

Mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda'r Bws Beics. Mae'n gyfle gwych i ddisgyblion a theuluoedd fwynhau teithio i'r ysgol mewn ffordd iach, lesol a chyfeillgar i'r amgylchedd, wrth dreulio amser cymdeithasol gyda ffrindiau ar hyd y daith.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno!

## Calendr

**Diwrnod HMS (Dim ysgol i'r disgyblion) 22.5.26**

# Cyngerdd Dathlu Doniau

Byddwn yn cynnal ein Cyngerdd Dathlu Doniau yn yr ysgol nos Iau, y 4ydd o Fehefin, am 6:30yh.

Eleni, mae 14 o gystadlaethau o Ysgol Treganna wedi llwyddo i ennill eu lle i gynrychioli Gorllewin Caerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ynys Môn, camp arbennig ac yn record i ni yma yn Nhreganna!

Rydym yn hynod falch o ymroddiad, talent a gwaith caled ein disgyblion, ynghyd â chefnogaeth barhaus y staff.

Bydd y cyngerdd hwn yn gyfle arbennig i ddathlu doniau disgyblion Ysgol Treganna, yn ogystal â diolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed drwy gydol y flwyddyn.

Bydd pob cystadleuaeth sy'n mynd ymlaen i berfformio yn Ynys Môn yn cymryd rhan yn y noson arbennig hon.

Mae tocynnau i oedolion yn £5, gyda mynediad am ddim i blant. Mae'r tocynnau ar gael drwy ParentPay.

Edrychwn ymlaen at noson arbennig o ddathlu a mwynhau talentau ein disgyblion.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

# Tregwyl

Rydym yn gyffrous iawn i gyhoeddi bod digwyddiad Tregwyl, a drefnir gan y GRhA, yn digwydd eleni yn Ysgol Treganna!

Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ar ôl ysgol ddydd Gwener, y 26ain o Fehefin.

Bydd digon o hwyl a gweithgareddau i'r teulu cyfan eu mwynhau, gyda phob dosbarth yn trefnu stondinau amrywiol.

Bydd hefyd gemau, castell sboncio, llithren, bwyd blasus a bar ar y safle. Yn ogystal â hynny, bydd llwyfan mawr ar yr iard gyda pherfformiadau byw gan nifer o fandiau a pherfformwyr talentog.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddod at ein gilydd fel cymuned ysgol i ddathlu a mwynhau'r noson arbennig hon.

Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu dros yr wythnosau nesaf, ond os hoffech gynorthwyo mewn unrhyw ffordd gyda'r trefniadau neu ar y noson ei hun, cysylltwch gyda'r GRhA.

Byddai eich cefnogaeth yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.

Diolch!

# Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**

Daeth…yn gyntaf
Daeth…yn ail
Daeth…yn drydydd

**Testun trafod yr wythnos**

Does dim angen mynd i'r gwely'n gynnar.

**Cân yr wythnos**

Mr Phormula & Alys Williams - Lle mae dy galon

**Idiom yr wythnos**

Digon yw digon